



Beth yw Rhaglen Ymchwilydd Gwobr Cyflogadwyedd Bangor?

Rhaglen ddatblygu proffesiynol parhaus a gynlluniwyd yn benodol i fyfyrwyr doethuriaeth yw Rhaglen Ymchwilydd Gwobr Cyflogadwyedd Bangor. Mae'n cyd-fynd â Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr Vitae ac fe'i cyflwynir mewn partneriaeth ag Ysgol Ddoethurol y brifysgol.

Beth yw'r manteision?

Mae strwythur y rhaglen yn eich galluogi i ddatblygu gwybodaeth weithredol am brosesau datblygiad proffesiynol parhaus, sydd, yn ei dro, yn gwella ac yn hyrwyddo eich datblygiad proffesiynol. Mae'r rhaglen hefyd yn rhoi lle i chi gofnodi eich holl weithgareddau proffesiynol (e.e. cynadleddau, cyflwyniadau poster, erthyglau, blogiau) yn ffurfiol gan eich bod yn cael trawsgrifiad manwl ar ddiwedd y rhaglen.

Pwy all gymryd rhan?

Mae holl fyfyrwyr doethuriaeth llawn-amser a rhan-amser Bangor yn gymwys i gymryd rhan.

Pryd allaf ddechrau?

Gall myfyrwyr ymuno â'r rhaglen ar unrhyw adeg o'u doethuriaeth - cysylltwch â Clare Brass c.l.brass@bangor.ac.uk i drafod ymhellach.

Faint o amser mae'n ei gymryd i gwblhau'r rhaglen?

Mae elfennau gorfodol y rhaglen yn cyd-fynd ag elfennau hunanasesu, cynllunio a thracio rheoli eich doethuriaeth, felly nid yw'n ymrwymiad ychwanegol brawychus o drwm. Rhaid i chi gwblhau pob elfen orfodol a chyflwyno yn eich blwyddyn olaf.

Ble gallaf gael mynediad at y rhaglen?

Gellir cael mynediad at y rhaglen a'i rheoli ar-lein trwy FyMangor. Mewngofnodwch a chliciwch ar y tab 'Cyflogadwyedd' i weld y wybodaeth a'r adnoddau.

Sut allaf gofrestru?

Cysylltwch â Clare Brass c.l.brass@bangor.ac.uk i drefnu cyfarfod cynefino cychwynnol neu i ofyn am ragor o wybodaeth.

Gofynion Rhaglen Ymchwilydd Gwobr Cyflogadwyedd Bangor		
D111	Sesiwn gynefino'r Ysgol Ddoethurol	Ewch i we-dudalennau'r Ysgol Ddoethurol i weld dyddiadau'r sesiynau cynefino.
D000	Sesiwn gynefino'r Rhaglen Ymchwilydd GCB	Cyfarfod briffio byr gyda Clare Brass (hanner awr). Anfonwch e-bost at c.l.brass@bangor.ac.uk i drefnu'r cyfarfod.
Profion Cymhwysedd		
D004	Adroddiad Proffilio Seicometrig	Mae proffilio seicometrig yn darparu gwybodaeth am eich sgiliau ac am eich dewisiadau gwaith. Llenwch holiadur cynhwysfawr a byddwch yn derbyn adroddiad craff.
D006, D007 & D008	Profion rhifol, llafar a rhesymu haniaethol	3 prawf cymhwysedd ar-lein proffesiynol - caiff y profion hyn eu hamseru a chewch adroddiadau manwl am eich perfformiad. Mae pob prawf yn ofynnol.
D005	Dynodydd arddulliau dysgu	Aseswch a nodwch yr arddulliau dysgu sydd orau gennych trwy'r prawf proffesiynol ar-lein hwn.
Hyfforddiant		
D009	Gweithdy ysgrifennu CV Academaidd a Phroffesiynol	Mae'r gweithdy hwn yn darparu gwybodaeth fanwl am CVs academaidd a CVs proffesiynol ôl-ddoethurol. Cynhelir y gweithdy nesaf 24 Ionawr ac eto ym mis Mehefin/Gorffennaf. 1 gweithdy'n ofynnol.
D010	Gweithdy Datblygiad Proffesiynol	Cofnodwch eich cyfranogiad mewn unrhyw weithdy neu gwrs a gyflwynir gan Raglen Hyfforddi a Datblygu'r Ysgol Ddoethurol , rhaglen weithdai'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd , neu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi mewnol neu allanol. O leiaf 12 gweithdy'n ofynnol.
Cynllun Datblygu Personol		
D001	Cam Cynnar	Mae'r cynlluniau datblygu personol hyn yn gofyn i chi archwilio eich cymwyseddau, nodi eich anghenion hyfforddi a datblygu, a gosod nodau a thargedau penodol.
D002	Cam Canol	1 cynllun fesul cyfnod yn ofynnol.
D003	Cam Hwyr	Datblygwyd y templed cynllun datblygu personol hwn gan yr Ysgol Ddoethurol ac mae ar gael ar eu gwe-dudalennau ac yng Hwb Rhaglen Ymchwilydd GCB .
Ymarfer Adfyriol		
D100	Parth A: Gwybodaeth a Galluoedd Deallusol	Adfyriwch ar gymwyseddau sydd wedi eu grwpio yn ôl parth (gweler y Fframwaith Datblygu Ymchwilwyr), gan ddisgrifio pa weithgareddau, gweithredoedd a digwyddiadau sydd wedi dylanwadu ar eich datblygiad. 3 adfyfriad fesul parth yn ofynnol.
D200	Parth B: Effeithiolrwydd Personol	
D300	Parth C: Ymchwil, Rheolaeth a Threfn	
D400	Parth D: Ymwneud, Dylanwad ac Effaith	
Dangos Cymwyseddau		
D999	Datganiad Cyflogadwyedd	Adolygwch eich cynnydd gan ddefnyddio eich cynlluniau datblygu personol. Paratowch ddatganiad sy'n dangos eich cymwyseddau allweddol ym mhob un o'r pedwar parth. 1 datganiad yn ofynnol.
D998	Cyfweliad Fideo	Cyflwynwch recordiad fideo ohonoch yn ateb cwestiynau cymhwysedd mewn ffug gyfweliad. 1 cyflwyniad yn ofynnol.